# Cefnogi System Dysgu Gydol Oes Cymru

## Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno'r Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) yn ddiweddar. Mae hyn yn adeiladu ar yr ymrwymiadau sydd eisoes yn bodoli i ddysgu gydol oes.

Cynhaliwyd adolygiad o dystiolaeth gennym i gefnogi gwaith pellach i ddatblygu polisïau a gwaith y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CTER).

Rydym yn ystyried bod dysgu gydol oes yn cwmpasu dysgu ar gyfer pob oedran, gan ganolbwyntio ar addysg a hyfforddiant i oedolion ôl-16; ac yn cwmpasu pob math o ddysgu oedolion, gan gynnwys dysgu galwedigaethol, addysg uwch, a dysgu cymunedol ac anffurfiol. Mae'n cynnwys prifysgolion, colegau, gwasanaethau addysg oedolion awdurdodau lleol, a sefydliadau eraill ar gyfer addysg oedolion.

## Y cyd-destun

Mae llawer o oedolion oedran gweithio yng Nghymru sydd heb gymwysterau digonol na sgiliau hanfodol. Dyma'r heriau i Gymru:

• Nid oes gan 24% o oedolion gymhwyster lefel 2;

• Nid oes gan 14% o oedolion gymhwyster lefel 1, ac mae eu sgiliau hanfodol yn wael;

• Nid oes gan 53% o oedolion y sgiliau digidol hanfodol sydd eu hangen arnynt ar gyfer byd gwaith;

• Gallai 20% o'r farchnad lafur bresennol fod â diffyg sgiliau ar gyfer eu swydd;

• Mae 66% o'r gweithlu cyfan yn ddiffygiol o ran sgiliau i ryw raddau (Nomis/Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2021; Canolfan Cyfiawnder Cymdeithasol, 2021).

Yng Nghymru mae'r gyfran sydd â chymhwyster lefel 4 ac uwch 4% yn is na chyfartaledd y DU, ac mae'r gyfran sydd â chymhwyster lefel 3 1% yn uwch (Nomis, 2021).

## Hawliau

Gan adeiladu ar y Cwricwlwm i Gymru mewn ysgolion, a chan weithio ar y rhagdybiaeth bod y diffiniad o ddysgu gydol oes yn cynnwys pob oedran, dylai Llywodraeth Cymru ystyried:

- Cadarnhau ac ailddatgan yr hawl bresennol i addysg;
- Ehangu'r cynnig i gynnwys pobl ifanc 16-18 oed ac oedolion â lefel sgiliau isel;
- Cydnabod dysgu anffurfiol a defnyddio dysgu i hyrwyddo dull ataliol o ymdrin ag iechyd; a
- Chynnig set o hawliau yn sail i'r cynnig.

Argymhellir y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu hawliau estynedig. Dylai'r set newydd hon o hawliau gwmpasu pob oedran, cynnig llwybrau cynnydd priodol, a rhoi Cymru mewn sefyllfa dda i wynebu heriau o ran sgiliau a heriau bywyd yn y dyfodol.

## Targedu'r rhai a fyddai'n elwa fwyaf ar ddysgu gydol oes

Dylai sefydliadau a'r llywodraeth fod â'r nod o ddarparu cynnig cynhwysfawr sy'n diwallu anghenion dysgwyr. Fodd bynnag, gan gydnabod bod cyllid y llywodraeth yn aml yn gyfyngedig, dylid cynnig cymysgedd o wahanol lwybrau ariannu, gan ystyried ehangu hawliau, anghenion dinasyddion, a chapasiti'r llywodraeth a busnesau.

Dylai unigolion a ariennir yn llawn fod yn rhai a fyddai nid yn unig yn elwa o addysg bellach, ond sydd ei angen hefyd i wella eu sgiliau sylfaenol neu i gael gwaith. Dylai cyd-ariannu fod ar gael i unigolion sy'n dymuno gwella eu sgiliau ar lefelau uwch neu ar gyfer dysgu yn y gweithle.

## Rhwystrau i ddysgu a chyfranogi

Mae sawl rhwystr i ddysgu gydol oes, megis costau, cyfrifoldebau gofal, neu broblemau o ran hyder h.y. teimlo bod y cyfle wedi mynd heibio neu deimlad bod rhywun yn rhy hen (Sefydliad Dysgu a Gwaith, 2019).

Mae ffioedd ac arian i dalu am gostau byw yn destun pryder mawr i ddysgwyr. Yn aml, diffyg cyllid cynhaliaeth, a'r angen i barhau i weithio, yw'r ffactorau sy'n rhwystro pobl rhag cael addysg uwch.

Ffactor sylfaenol arall yw llwyddiant addysgol blaenorol. Po uchaf yw lefel y cymwysterau sydd gan rywun, mwyaf tebygol yw'r unigolyn hwnnw o fynd ati'n annibynnol i chwilio am hyfforddiant pellach. Gwelwyd hyn yn ystod y pandemig, ac mae wedi cael ei gofnodi mewn adroddiadau diweddar a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Dysgu a Gwaith (2019), a'r Ganolfan Cyfiawnder Cymdeithasol (2020).

## Manteision cymdeithasol ac economaidd dysgu gydol oes


Mae'r rhesymau economaidd a chymdeithasol dros ddysgu gydol oes yn cefnogi ei gilydd oherwydd gall dysgu gydol oes wneud dysgwyr yn fwy hyderus yn ogystal â chynyddu cynhyrchiant.

Mae dysgu gydol oes yn dod â chanlyniadau cadarnhaol i unigolion, yr economi a chymdeithas. Mae oedolion dros 25 oed sy'n ennill cymwysterau lefel 2 yn cynyddu eu henillion 8% ar gyfartaledd, gan godi i 10% ar gyfer y rhai sy'n ennill cymhwyster lefel 3.

Mae dysgu gydol oes wedi cael ei gysylltu â lles meddyliol gwell, ac mae wedi arwain at adferiad o salwch iechyd meddwl ymhlith 52% o bobl â symptomau clinigol sylweddol (Ipsos MORI *et al.*, 2018).

## Rôl y llywodraeth yn y broses o greu amgylchedd sy'n galluogi

O ystyried y manteision pellgyrhaeddol, mae gan y Llywodraeth rôl allweddol i'w chwarae yn y broses o greu amgylchedd sy'n galluogi, ac o ran rhoi naratif cyson ar ddysgu gydol oes sy'n dechrau gydag addysg cyn meithrin ac yn parhau drwy gydol oes. Mae UNESCO (2020) yn nodi sawl elfen allweddol sydd eu hangen i greu'r diwylliant lle gall dysgu gydol oes ffynnu (gweler Ffigur 1):




*Ffigur 1: Creu amgylchedd galluogi ar gyfer dysgu gydol oes*

Mae sefydlu CTER yn gyfle i bennu'r cyfeiriad strategol ar gyfer dysgu gydol oes. Rydym yn argymell y dylai hyn gael ei leoli o fewn fframwaith ariannu diogel ac y dylai sefydliadau gael cefnogaeth i ddiwallu anghenion lleol.

Mae eglurder y rolau a'r perthnasoedd rhwng pawb sydd ynghlwm yn allweddol i sicrhau bod y system gyfan yn gweithio'n effeithiol. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried dwyn ynghyd adrannau allweddol y llywodraeth i lywio a chynorthwyo CTER ar bob mater sy'n ymwneud

â dysgu gydol oes. CTER ac Estyn fyddai'n cyflawni'r rolau allweddol, a byddai'r sylfaen sefydliadau ôl-18 yn cael ei ystyried yn bartner allweddol y gellid ymddiried ynddo, ac yn gyd-berchennog polisïau a gweithredu, yn hytrach na'i fod yn gontractwr neu'n ddarparwr yn unig.

## Cefnogi sefydliadau i gynyddu cyfranogiad

Gall y Llywodraeth gefnogi sefydliadau a rhanddeiliaid i gyflawni drwy: gynyddu cyllid, sicrhau cysondeb o ran y neges, eirioli dros ddatblygu addysg a sgiliau, a gweledigaeth hirdymor. Dylid cydnabod hefyd fod sefydliadau'n adnabod eu hardal a'u myfyrwyr, a'u bod yn y sefyllfa orau i ddeall anghenion y gweithlu lleol. Maent yn gallu cydweithio a chydweithredu i sicrhau bod llwybrau cynnydd eglur ar gael i ddysgwyr.

## Argymhellion a chasgliadau

Mae Cymru mewn sefyllfa dda i fabwysiadu strategaeth dysgu gydol oes ar gyfer pob oedran ac mae llawer o bolisïau sylfaenol eisoes ar waith.

Mae'r argymhellion a nodir drwy'r adroddiad yn ymwneud â'r prif ganfyddiadau, sydd wedi eu crynhoi isod:

1. Nid oes gweledigaeth gyffredinol a chytundeb ar y diffiniad o ddysgu gydol oes;
2. Nid oes naratif cyson, trawsbynciol;
3. Mae angen gwella hawliau;
4. Mae angen cytuno ar ddull o benderfynu ar flaenoriaethau; ac
5. Mae angen atebion ar gyfer materion sefydliadol, gan gynnwys:
   - **a)** yr angen i roi eglurder ynghylch rolau a chyfrifoldebau unigolion allweddol yn y system;
   - **b)** yr angen i ddatblygu dulliau gweithio sy'n helpu sefydliadau i barhau i gynnig darpariaeth o safon i ddysgwyr, gyda systemau sy'n ei gwneud yn hawdd iddynt gynnig rhaglen gydweithredol, hyblyg, ac ymatebol i fyfyrwyr a dysgwyr y dyfodol.

Mae'r canfyddiadau hyn a'r argymhellion cysylltiedig yn dangos bod angen mynegi gweledigaeth gadarnhaol a chydlynol ar gyfer dysgu gydol oes, sy'n adeiladu ar y sylfeini cadarn presennol. Mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil yn meithrin partneriaethau agos a blaengar gyda gweledigaeth a phwrpas a rennir.

## Cyfeirnodau


Comisiwn y Canmlwyddiant ar Addysg Oedolion. (2019). ***Adult Education and Lifelong Learning for 21st Century Britain 2020.***

Y Ganolfan Cyfiawnder Cymdeithasol. (2020). ***The Long Game: How to reboot skills training for disadvantaged adults.***

Y Sefydliad Dysgu a Gwaith. (2019). **Barriers to learning.**

Ipsos MORI, y Ganolfan Iechyd Meddwl, a Lawson, L. (2018). **Evaluation Mental Health and Education.** Yr Adran Addysg, Llywodraeth y DU.

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. (2021). **Nomis – Official Labour Market Statistics.**

Llywodraeth Cymru. (2021). **Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru).**

## Rhagor o wybodaeth

Ar gyfer yr adroddiad llawn gweler Pember, S *et al.* (2021). ***Cefnogi System Dysgu Gydol Oes Cymru.*** Caerdydd: Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

## Ynglŷn â Chanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Yma yn y ganolfan, rydym yn cydweithio ag arbenigwyr polisi blaenllaw i roi tystiolaeth a chyngor annibynnol o ansawdd uchel i weinidogion, y gwasanaeth sifil a gwasanaethau cyhoeddus Cymru sy'n eu helpu i wella penderfyniadau a chanlyniadau polisi.

Mae'r Ganolfan, sy'n cael ei hariannu gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol a Llywodraeth Cymru, yn rhan o Brifysgol Caerdydd ac yn aelod o What Works Network y Deyrnas Unedig.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Dr. Jack Price**

+44 (0)29 2087 5345

info@wcpp.org.uk

**Wales Centre for Public Policy**

Cardiff University, Sbarc/Spark, Maindy Road, Cardiff CF24 4HQ

www.wcpp.org.uk

029 2087 5345

info@wcpp.org.uk

@WCfPP

Cardiff University / Prifysgol Caerdydd

UKRI Economic and Social Research Council

Llywodraeth Cymru / Welsh Government